**MEMORANDWM CANIATÂD DEDDFWRIAETHOL**
**MESUR ADDYSG A SGILIAU**

## Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol Atodol

1. "Bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.4, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried, yn ogystal â'r darpariaethau y cyfeiriwyd atynt yng nghynnig NDM4246, y darpariaethau ychwanegol hynny yn y Mesur Tlodi Plant mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru."

## Cefndir

2. Cyflwynwyd y Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol ym mharagraff 1 uchod gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes o dan Reol Sefydlog 26.4 Rheolau Sefydlog ("SO") Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gosodir y Memorandwm Caniatâd Deddfwriaethol hwn o dan SO 26.2. Mae SO 26 yn pennu bod angen cyflwyno Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol, a gosod Memorandwm Caniatâd Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Mesur Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at ddiben sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Cyflwynwyd Mesur Tlodi Plant y DU (y Mesur) ar 11 Mehefin 2009. I'w weld ewch i: http://services.parliament.uk/bills/2009-10/childpoverty.html

## Crynodeb o'r Mesur ac Amcanion ei Bolisïau

4. Noddir y Mesur gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd a Thrysorlys ei Mawrhydi gyda'r Ysgrifennydd Ariannol i'r Trysorlys yn gweithredu fel y Gweinidog arweiniol. Prif ddiben y Mesur yw gosod targedau i ddileu tlodi plant erbyn 2020 sef yr hyn y mae'n ddyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i'w gyflawni; ei gwneud hi'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi, adolygu a chyflwyno adroddiad yn erbyn strategaeth tlodi plant y DU; a chreu comisiwn tlodi plant i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol a chymryd rhan yn y broses o arfer y pŵer i ddiwygio'r targedau. Mae'r targedau ar gyfer dileu tlodi plant yn canolbwyntio ar nifer o fesurau sy'n ymwneud ag incwm isel cymharol, amddifadedd sylweddol, incwm isel absoliwt a thlodi parhaus. Caiff y mesurau hyn eu defnyddio i benderfynu a yw tlodi plant yn lleihau yn unol â'r targed.

5. Bydd strategaeth tlodi plant y DU yn nodi'r camau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn bwriadu eu cymryd yn y lle cyntaf i gyrraedd y targedau i ddileu tlodi plant ac yn ail i sicrhau nad yw plant yn y Deyrnas Unedig, cyn belled ag y bo modd, o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.

6. Mae Mesur Tlodi Plant y DU eisoes wedi bod yn destun Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol (NDM4246) yn y Cynulliad Cenedlaethol lle rhoddodd y

Cynulliad Cenedlaethol ei ganiatâd ar gyfer darpariaethau perthnasol y Mesur, ac i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dylai Senedd y DU eu hystyried."

http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=133062&ds=6/2009

7. **Mae'r Memorandwm a oedd yn cyd-fynd â'r Cynnig ynghlwm yn Atodiad 1.**

**Darpariaethau pellach y ceisir caniatâd y Cynulliad Cenedlaethol ar eu cyfer ac amcanion polisi.**

8. Ers cyflwyno'r Mesur ym mis Mehefin 2009, mae Llywodraeth y DU wedi bod yn ystyried sut, yn wyneb y dirywiad economaidd, y gallai roi cymorth i'r economi, i fusnesau ac i aelwydydd sicrhau adferiad a chynnig llwyfan i hybu twf a datblygu cyfleoedd.

9. Yn yr adroddiad a baratowyd cyn cyflwyno Cyllideb 2009, "Securing the Recovery: Growth and Opportunity" cyflwynwyd pecyn o fesurau i fynd i'r afael â thlodi plant sy'n cynnwys helpu teuluoedd ar incwm isel i bontio'r trawsnewid i fyd gwaith drwy ymestyn yr hawl i brydau ysgol am ddim ymhlith plant o oed ysgol gynradd o deuluoedd sy'n gweithio ar incwm isel. Gallai ymestyn yr hawl i brydau ysgol am ddim gynorthwyo i leihau tlodi plant drwy roi cymorth i deuluoedd ar incwm isel a gwella'r cymhellion i weithio.

10. Mae gwelliant a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ar 15 Ionawr 2010 yn cynnig mewnosod Cymal newydd yn rhan o'r Mesur. Mae'r Cymal hwn yn darparu ar gyfer diwygio adran 512ZB o Ddeddf Addysg 1996 (Darparu Ciniawau Ysgol a Llaeth am Ddim) fel y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol (mewn perthynas â Lloegr) a Gweinidogion Cymru (mewn perthynas â Chymru), drwy Orchymyn, ragnodi'r amodau at ddibenion derbyn prydau ysgol am ddim os yw rhieni'r plentyn (neu'r plentyn ei hun) yn derbyn budd-daliadau penodol. Gellir gweld y gwelliant a gyflwynwyd (i'w fewnosod cyn Cymal 25) ar wefan Senedd y DU:

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200910/ldbills/021/amend/am021-f.htm

11. Barn Llywodraeth y Cynulliad yw bod y ddarpariaeth y cyfeirir ati ym mharagraff 10 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â Mater 5.9 yn Rhan 1 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sef "darpariaeth am fwyd a diod a ddarperir ym mangre'r ysgol neu a ddarperir ar gyfer plant mewn man lle y cânt eu haddysg neu eu gofal plant."

12. Gan fod y gwelliant arfaethedig i adran 512ZB Deddf Addysg 1996 yn mynd y tu hwnt i'r caniatâd a roddwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol, mae angen Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol pellach o dan SO 26.

**Manteision defnyddio'r Mesur hwn**

13. Cred Llywodraeth Cynulliad Cymru mai Mesur y DU yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymesur i ddelio â'r darpariaethau hyn. Bydd manteisio ar y cyfle a ddarperir gan y Mesur yn fodd i'r darpariaethau hyn fod yn berthnasol yng Nghymru cyn gynted ag sy'n bosib a bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyflwyno deddfwriaeth briodol yn unol â blaenoriaethau Cymru a'i phryderon.

14. Os yw'r gwelliannau hynny i fod yn gymwys i Loegr yn unig yna mae posibilrwydd y gallai plant sy'n mynychu ysgolion a gynhelir yng Nghymru fod o dan anfantais.

12. Gosodwyd felly y Memorandwm Caniatâd Deddfwriaethol a chyflwynwyd y Cynnig Caniatâd Deddfwriaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

**Goblygiadau ariannol**

13. Bydd goblygiadau ariannol unrhyw ymgynghoriad, deddfwriaeth neu ganllawiau yn deillio o benderfyniad i'w wneud yn y dyfodol i arfer y pŵer i wneud Gorchmynion o dan y darpariaethau perthnasol yn destun ystyriaeth lawn o'u fforddiadwyedd ac Arfarniad Effaith Rheoliadol a fyddai'n dadansoddi'r gost a'r budd.

**Leighton Andrews AM**
**Gweinidog Cymru dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes**
**Ionawr 2010**